



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

BAROD Σ AN BRIFYSGOL



MYNEDIAD 2020 - PARATOI AR GYFER Y CAM ACADEMAIDD NESAF

Dim arholiadau i adolygu ar eu cyfer, dim gwaith cwrs i'w gwblhau a misoedd cyn i'ch astudiaethau prifysgol ddechrau; efallai eich bod yn teimlo ychydig ar goll...

Ceisiwch baratoi ar gyfer y cam nesaf trwy gadw eich ymennydd yn fywiog, gyda ffocws pendant.

Meddyliwch sut gallwch gynorthwyo eich hun i symud yn esmwyth i mewn i'r cyfnod nesaf yn eich addysg.

Bydd mynd y filltir ychwanegol yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich astudiaethau academiaidd, yn arddangos a datblygu sgiliau newydd, profi eich ymroddiad ac angerdd tuag at y cwrs ac yn dileu'r diflastod dan gyfyngiadau.

Cofiwch i gadw'n ddiogel ar bob adeg a chadw at ganllawiau'r llywodraeth.



Dysgu ar lein



Mae amrywiaeth eang o gyrsiau byrion, gweminarau, prosiectau ayyb yn benodol i'ch cwrs o'ch dewis ar gael am ddim ar lein. Mae'r we yn llawn posibiliadau.

Gwirfoddoli



Mae'n bosib gwirfoddoli mewn amryw ffyrdd o ddiogelwch eich cartref. Edrychwch am gyfleoedd yn eich ardal leol neu cysylltwch â sefydliad o ddiddordeb i chi.



Byddwch yn greadigol

Cymrwch ran mewn prosiect; ar eich pen eich hun, gydag aelodau eich cartref neu gyda ffrindiau dros sgwrs fideo. E.e. gwario gormod o amser yn gwylio Netflix? Pam ddim ysgrifennu adolygiad o'r bocs set diweddaraf i chi wyllo?

Parllen ychwanegol



Cyfle i ymestyn eich gwybodaeth a pharatoi ar gyfer eich astudiaethau academiaidd yn y brifysgol.

Beth yw'r diweddaraf

Darganfyddwch beth mae'r brifysgol a'ch cwrs yn ei wneud dan y cyfyngiadau symud. Efallai fod rhywbeth gallwch fod yn rhan ohono.



Digwyddiadau rhithwir

Ymwelwch â diwrnodau agored, sesiynau blasu ac unrhyw ddigwyddiadau eraill rhithwir.



Cadwch mewn cysylltiad

Cysylltwch â'r brifysgol i ofyn am gyngor.



Am wybodaeth bellach ar sut gall YDDS eich cefnogi ewch i www.uwtsd.ac.uk/cy/ neu cysylltwch â ni info@uwtsd.ac.uk